Cyngor Cymuned Tudweiliog

Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

# Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 21ain Gorffennaf 2025
## Festri Capel Dinas

Presennol: Dafydd Williams, Alyn Williams, Deio Williams, John Davies, Terry Hughes, Sioned Pearson, Chirs Brady

Ymddiheuriadau: Henry Hughes, Sian Parri, Alan Hughes, Gareth Jones, Catrin Williams

1. Cadeirwyd gan Sioned Pearson, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Cafwyd ebost gan Gwyn Williams o gwmni Hayden E Williams Cyf sy'n delio hefo'r cais cynllunio, for yr adran cynllunio wedi derbyn sylwadau gan yr Ysgol gynrradd yn pryderu am draffig ychwanegol a materion parcio. Hefyd mae'r adran draenio yn gwrthwynebu'r cais nes bydd datganiad draenio yn cael ei greu ac mae'r uned priffyrdd angen mwy o wybodaeth. Deallwyd hefyd fod y Swyddogion yn mynnu fod y cais yn mynd i bwyllgor Cynllunio i gael ei benderfynu.
   b. **Polisi Gosod Tai** –Derbynwyd ebost gan Cyngor Cymdeithas Aberdaron yn datgan eu cefnogaeth i'r syniad o holi trigolion Llyn faint o angen sydd mewn gwirionedd i'r holl dai sy'n cael eu hadeiladu a hynny drwy roi erthygl yn Llanw Llyn mis Medi. Bydd y Clerc ynghyd a Sian Parri yn gweithio ar hyn.
   c. **Hysbysfwrdd –** Hyd yma ni osodwyd hysbysfwrdd Tudweiliog, addawodd Chris y bydd yn ei osod yn fuan.
   C. **Archwyliad Allanol –** Erbyn hyn bu i'r Cler gyflwyno'r gwaith

i 'Audit Wales', cafodd ar ddeall fod yr archwyliad yn cael ei weithredu gan y swyddog Dyfrig Henson – byddwn yn cael gwybod mwy ym mis Medi.

Ch. **Ymddiswyddiad y Clerc –** Dywedodd y Clerc ei bod wedi anfon hysbysiad am Swydd Clerc i'r Llanw a gofynnodd i bawb rannu'r hysbyseb yn eu hardaloedd. Cadarnhaodd y bydd yn parhau hefo'r swydd tan mis Medi, ond y bydd yn gadael y swydd ar ol hynny.

4. Gohebiaeth:

**a. Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu.

**b. Diffibrilwyr –** Derbynwyd ebost gan Einir Wyn Clerc Cyngor Cymuned Llanengan, yn ein gwybyddu fod newidiadau yn y drefn o gynnal a chadw diffibrilwyr- h.y newid batris a padiau a waned gan y Gwasanaeth Ambiwlans tan yr haf diwethaf, pan fu rhaid i'r cymunedau gymeryd y cyfrifoldeb. Bydd Einir yn trefnu cyfarfod er mwyn i'r Cynghorau Cymuned ddeall y drefn newydd – bydd yn gwybyddu'r dyddiad eto.

**c. Anfoneb Llyn Wood Products am osod hysbysfwrdd Garnfadryn-** £162.00 – derbynwyd caniatad i'w thalu.

Ch.**Cronfa Gwynedd Ni** – daeth ebost gan Alys Marged Rees yn ein gwybyddu fod grant ar gael i wella neu gyflwyno rhywbeth mae'r gymuned wir eisiau – (Cronfa Ffyniant Cyffredin). Bydd y Cynghorwyr yn cysylltu a'r Clerc os bydd rhywbeth yn dod i'w meddyliau.

5. Unrhyw fater arall:

a. Cafwyd cwyn fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn dadlwytho hen tarmac ar ddarn o dir ar y lon am Porthysgaden. Mae'r hen darmac yn brysur cael ei orchuddio a drain a mieri – canlyniad hyn ydi fod traffic yn cael eu gorfodi i fynd i'r ffos i geisio ei osgoi. Bydd y Clerc yn cysylltu ar adran Priffyrdd.

b. Cafwyd cwyn fod y llwybyr troed o PorthYchain i lon Tyddyn Belyn wedi cau hefo tyfiant. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Llwybrau.

c. Cafwyd cwyn for goryrry yn digwydd drwy pentref Tudweiliog yn arbennig heibio'r Post i lawr am y Capel. Does dim palmant o'r tro am Lion i'r Post ac mae'n beryglus – bydd y Clerc yn tynnu sylw'r adran traffic at hyn gan ofyn fyddai'n bosib rhoi palmant ar y darn yma o'r ffordd.

.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Medi 8fed am 7.30yh
Festri Capel Garnfadryn